Gwahoddiad i dendro ar gyfer gwasanaethau Rhwydwaith Darparu Cynnwys ("RDC") a/neu gwasanaethau gweinydd/amgodio aml-ddyfais, aml-blatform.

Cyhoeddwyd:	***29 Medi 2011***
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau:	***9 Tachwedd 2011***
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am eglurhad:	***26 Hydref 2011***

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn gwahodd ceisiadau gan unigolion, gwmnïau a sefydliadau y mae ganddynt ddiddordeb mewn cyflenwi ac sy'n gallu cyflenwi gwasanaethau RDC a/neu gwasanaethau gweinydd/amgodio aml-ddyfais, aml-blatform i S4C, fel y disgrifir yn fwy penodol yn y tudalennau nesaf.

Mae'r Gwahoddiad i Dendro ("GID") yma yn cynnwys y rhannau canlynol:

Rhan 1	Gwybodaeth Gefndirol
Rhan 2	Gwybodaeth Bellach am y Cytundeb
Rhan 3	Gwybodaeth i'w Chynnwys yn yr Ymateb i'r Tendr
Rhan 4	Amlinelliad y Broses Dendro a Cheisiadau am Wybodaeth Bellach
Rhan 5	Meini Prawf Gwerthuso a Gwobrwyo'r Cytundeb
Rhan 6	Nodiadau Cyfreithiol

Atodiad 1	Cytundeb
Atodiad 2	Matrics Gwerthuso
Atodiad 3	Ffurflen Gwybodaeth Sylfaenol

Darllenwch y Gwahoddiad i Dendro yma yn ofalus. Mae'n bosib na fydd ymatebion i'r tendr nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y Gwahoddiad i Dendro yma yn cael eu hystyried.

Mae'r broses dendr yma, gan gynnwys y Gwahoddiad i Dendr yma, yn ddarostyngedig i'r Nodiadau Cyfreithiol a nodir yn Rhan 6.

Rhan 1 Gwybodaeth Gefndirol

1.1 S4C

S4C yw'r sianel deledu iaith Gymraeg ac un o'r pum darlledwr teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Mae'n awdurdod darlledu annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Darlledu 1981, ac mae'n cael ei rheoleiddio gan Ddeddf Gyfathrebu 2003 a'r Ddeddf Darlledu 1990.

Mae S4C yn darparu ystod eang o raglenni amrywiol o safon uchel yn yr iaith Gymraeg ac mae'r gwasanaeth ar gael ar blatfformau digidol gan gynnwys Freeview, Freesat, Sky a Virgin. Mae S4C hefyd ar gael i wylio'n fyw ar wefan S4C trwy fandllydan a'r gwasanaeth gwylio ar alw 'Clic' yn ogystal a dyfeisiau symudol megis yr iphone ac ipad.

Mae S4C wedi'i hariannu mewn ffordd unigryw trwy gymysgedd o arian grant ac incwm masnachol a hysbysebu. Yn ogystal mae'r BBC yn darparu 10 awr o raglenni Cymraeg i S4C wedi ei ariannu gan y ffi drwydded.

Am wybodaeth gefndirol bellach am S4C, cyfeirir chi at Adroddiad Blynyddol 20xx, sydd ar gael ar wefan S4C (s4c.co.uk).

1.2 Y Gyfarwyddiaeth Ddosbarthu a Darlledu

Cynigir y tendr hwn gan y Gyfarwyddiaeth Ddosbarthu a Darlledu yn S4C. Mae'r Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu yn gyfrifol am ddarparu'r adnoddau, gweithrediadau a gwasanaethau angenrheidiol i gefnogi gwasanaethau darlledu, TG ac ar-lein S4C.

1.3 Gwybodaeth am Gefndir y Cytundeb

Mae gofynion S4C ar gyfer gwasanaethau RDC yn cael eu darparu dan gytundeb a fydd yn dod i ben yn Chwefror 2012. Yn ogystal, mae S4C yn darparu'r gwasanaeth amgodio aml-ddyfais, aml-blatform ar gyfer ei gwasanaethau rhyngrwyd yn fewnol. Er mwyn bodloni'r galw cynyddol, mae S4C yn dymuno adnewyddu darpariaeth y ddau wasanaeth hyn drwy gytundeb newydd yn unol â'r manylion a nodir yn Rhan 2.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y cytundeb ac anghenion S4C yn Rhan 2.

Rhan 2 Gwybodaeth Bellach am y Cytundeb

2.1 Gwybodaeth am anghenion S4C

Bydd ymgeiswyr yn tendro i ddarparu un neu'r ddau o'r canlynol:

2.1.1 RDC sy'n addas ar gyfer darparu holl wasanaethau ffrydio byw ac ar-alw S4C. Bydd y RDC yn darparu i gyfrifiaduron, dyfeisiau symudol, platforms megis iOS, Android, Symbian a chonsolau megis ps3, wii, xbox ayyb. Mae'n hanfodol fod gan y RDC a gynigir gynhwysedd (capacity) digonol i sicrhau profiad o safon da i'n gwylwyr heb golli cyswllt, byffro, rhewi ayyb.

2.1.2 Darparu gwasanaeth amgodio a ffrydio addasol aml-ddid i mewn i'r holl ffurfiau angenrheidiol o un ffeil "master" er mwyn cyflawni'r ddarpariaeth uchod.

2.2 Telerau a Hyd y Cytundeb

Mae'r cytundeb drafft ynghlwm yn Atodiad 1. Bydd fersiwn wedi'i gwblhau yn cael ei anfon drwy e-bost i'r ymgeisydd buddugol maes o law.

Bydd y cytundeb am gyfnod o 2 flynedd gydag opsiwn i ymestyn hyd y cytundeb am 12 mis ychwanegol.

Bydd S4C yn adolygu'r cytundeb a pherfformiad y cwmni llwyddiannus ar ôl y flwyddyn gyntaf ac mae'n cadw'r hawl i derfynu'r cytundeb ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf yn dilyn adolygiad o'r fath. Bydd yr adolygiad hwn yn ychwanegol i unrhyw adolygiadau rheolaidd a ddarparir yn y cytundeb.

Mae S4C yn cynnal y broses dendro hon gan ddefnyddio'r weithdrefn agored dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (Public Contracts Regulations 2006), felly ni chaniateir unrhyw drafodaeth ynghylch y cytundeb draft wedi i'r tendr gael ei roi i'r Tendrwr llwyddiannus. Caniateir diwygiadau i'r cytundeb drafft er mwyn adlewyrchu'r ymateb tendro llwyddiannus a/neu er mwyn egluro amodau'r cytundeb draft yn unig. Trwy gyflwyno ymateb i'r GID yma, mae Tendrwyr yn cytuno, os byddant yn llwyddiannus, eu bod yn ymrwymo i gytundeb gydag S4C yn unol â'r ffurf a nodir yn Atodiad 1. Gofynnir i Dendrwyr nodi darpariaethau Rhan 6.4. yn y cyd-destun hwn.

2.3 Gwarant Rhiant Cwmni a Chonsortia

Noder efallai y bydd S4C yn gofyn i'r Tendrwr llwyddiannus ddarparu gwarantau gan riant gwmni. Os yw consortiwm yn cynnig tendr a bod ei ymateb maes o law yn llwyddiannus gall y bydd ar S4C eisiau: (i) i'r consortiwm ffurfio endid cyfreithiol cyn arwyddo cytundeb; a/neu (ii) cyd-atebolrwydd ac atebolrwydd unigol holl aelodau'r consortiwm; a/neu (iii) gwarantau a/neu ymrwymiadau gan rai neu'r oll o aelodau'r consortiwm ar ran rhai neu'r oll o aelodau eraill y consortiwm.

2.4 Cyllideb /Amcan bris

Mae S4C yn amcangyfrif y dylid medru darparu'r gwasanaeth yn unol â gofynion S4C am gost o **£100,000 y flwyddyn** (gan eithrio TAW). Croesawir ceisiadau sy'n cyflwyno ffigwr is.

2.5 Cyfathrebu

Bydd angen adroddiad rheolaidd (misol) yn manylu ar berfformiad. Bydd yn rhoi manylion ar argaeledd gwasanaeth, toriadau ("outages") ffigurau manwl yn dangos y galw am gyfraddau did, cysylltiadau a storfa mewn defnydd.

2.6 Gofynion Staffio

Oherwydd natur y gwasanaeth, bydd angen cymorth technegol yn ystod oriau ymestynnol, penwythnosau a gwyliau'r banc (yn ogystal a oriau swyddfa arferol) rhag ofn y bydd problemau technegol.

2.7 Cynllun Parhad Busnes a Gweithrediadau Cynaliadwy

Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu manylion o'u cynllun parhad busnes ac unrhyw bolisïau sydd ganddynt i sicrhau eu bod yn rhedeg eu gweithrediadau mewn modd cynaliadwy.

2.8 Cyfnod Trosglwyddo/Paratoi

Mae S4C yn disgwyl cyfnod prawf/peilot o fis a gaiff ei ddilyn gan gyfnod o o leiaf mis ar gyfer paratoi/trosglwyddo a fydd yn rhan o gyfnod y cytundeb

2.9a Anghenion Sylfaenol

- Gallu i ddarparu 15 T/Byte y mis
- Gallu i ddelio â galw brig o 2000+ o gysylltiadau ar unwaith ar 1 Mbs a chopâu o dro i dro o 10,000+
- Lleiafswm storio o 250 Gbyte
- Gallu "geoblocking" hyblyg ar gyfer cynnwys byw ac ar alw
- Cefnogaeth i H264 a FLV
- Cefnogaeth ar gyfer mynediad FTP gyda nifer o gyfrifon
- Mynediad i logs gweinyddion fideo crai – sy'n cynnwys gwybodaeth dechrau a stopio'r sesiwn ee logs FMS a Wowza ayyb
- Y gallu i greu (o un prif ffeil) y nifer o fersiynau angenrheidiol ar gyfer ffrydio byw ac ar alw i gyfrifiaduron, Android, iOS, Symbian OS, teledu cysylltiol, consolau ee ps3, Xbox, Nintendo Wii ayyb
- Y gallu/cynhwysedd i gadw i fyny gyda twf cynnwys yn y dyfodol ac amryw o ddyfeisiau newydd pan y maent yn cyrraedd rhan sylweddol o'r farchnad

Anghenion Dymunol Iawn

- Gallu i gefnogi nifer o ddyfeisiau heb angen amgodio penodol ee cyfleu ffrwd byw awtomatig HTTP ar gyfer dyfeisiau iOS
- Rhestr o gleientiaid yn dangos darpariaeth o wasanaethau tebyg yn ogystal a geirda boddhaol gan dri o'r cleientiaid
- Gallu i sicrhau argaeledd gwasanaeth uchel – 24awr x 365 dydd
- Staff gyda'r lefel angenrheidiol o brofiad a chymhwyster i fedru bodloni gofynion y cytundeb

Anghenion Dymunol

- Gallu i greu cyfrifon FTP fel bo'r angen
- Gallu i greu pwyntiau cyhoeddi byw fel bo'r angen

2.9b Gwybodaeth am ddefnyddwyr

Bydd S4C angen mynediad i logs crai ar gyfer defnydd gan ein unedau ymchwil a marchnata.

Rhan 3 Gwybodaeth i'w Gynnwys yn yr Ymateb i'r Tendr

3.1 Gwybodaeth Angenrheidiol

Dylai'r Tendrwyr ddarparu'r wybodaeth ganlynol fel rhan o'r ymateb tendro er mwyn dangos yn fanwl sut y bodlonir gofynion S4C:

- *Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol yn y ffurf y gosodir yn Atodiad 3;*
- *Dogfen dendr yn cynnwys:*
  - *Gallu i ateb yr anghenion a nodir yn 2.9a*
  - *Enwau Personél Allweddol*
  - *Cyllideb/Ffi*
  - *Datganiad methodoleg manwl yn datgan sut y mae'r Tendrwr yn bwriadu cynllunio a/neu darparu'r hyn sydd yn ofynnol yn unol â'r cytundeb, gan gynnwys cwrdd ag unrhyw gyfyngderau amser, a systemau a ddefnyddir*
  - *Unrhyw sylwadau cyfreithiol sy'n codi o'r Nodiadau Cyfreithiol a'r Cytundeb Drafft a nodir yn Atodiad A; a*
- *Llythyrau geirda (dim mwy nag un ochr A4) gan 3 cleient y mae'r Tendrwr wedi darparu gwasanaethau tebyg iddynt*

Gall y Tendrwyr gynnwys gwybodaeth ychwanegol pan fo hynny'n berthnasol i'w hymatebion tendro, ond ni ddylai ymatebion tendro gynnwys unrhyw wybodaeth amherthnasol nas gofynnwyd amdani yn benodol neu sy'n ofynnol yn ôl y GID hwn gan gynnwys, er enghraifft, llenyddiaeth at ddibenion gwerthu ac amodau masnachu safonol.

Rhaid i ymatebion tendro barhau i fod yn agored am 3 mis o'r dyddiad rhoddir ar gyfer cyflwyno ymatebion tendro

Os bydd y Tendrwr (neu, yn achos ymateb tendro a gyflwynir gan gonsortiwm, unrhyw aelod o'r consortiwm), ar unrhyw adeg, yn dod yn ymwybodol o'r ffaith bod unrhyw wybodaeth y mae (neu, yn achos ymateb tendro a gyflwynir gan gonsortiwm, unrhyw aelod o'r consortiwm) wedi ei ddarparu i S4C mewn cysylltiad â'r broses dendro hon yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd neu heb fod yn gywir mwyach, rhaid hysbysu S4C o hyn ar unwaith.

3.2 Ffi

Mae S4C yn mynnu bod y gwasanaethau yn cael eu darparu am ffi sefydlog, gan gynnwys unrhyw gostau gosod, rheoli cyfrif, gweinyddu, staffio, cyfarfodydd a'r holl gostau a'r treuliau eraill sy'n codi o ddarparu'r gwasanaeth. Rhaid cyfleu'r ffi sefydlog hon mewn punnoedd sterling neu ei throsi i bunnoedd sterling, heb gynnwys TAW, ac mae'n rhaid iddi fod yn sefydlog trwy gydol y cytundeb.

Dylai Tendrwyr nodi'r ffi sy'n daladwy am y gwasanaethau a'r rhestr daliadau awgrymedig mewn ffordd eglur.

Dylai Tendrwyr ddarparu manylion am y ffi sefydlog a gynigir gennych, wedi'i rhannu i ddangos y ffi ar wahân o ran elfennau canlynol y cytundeb:

1. Ffi RDC
2. Costau amgodio a phrosesu
3. Costau adnoddau eraill

3.3 Uchafswm Tudalennau

Dylai Tendrwyr geisio bod yn gryno wrth ddrafftio eu hymatebion i'r GID yma. Ni ddylai ymateb i'r GID yma fod yn hirach na 15 tudalen A4 o hyd ac ni ddylid defnyddio maint ffont llai na Georgia 10. Mae S4C yn cadw'r hawl i eithrio o'r broses dendro unrhyw ymateb i'r GID nad sydd yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

Nid yw'r cyfyngiad tudalennau uchod yn cynnwys unrhyw ddogfennau yr atodir i'r brif ddogfen ymateb i'r GID (gan gynnwys geirda).

3.4 Cadarnhad Cywirdeb Gwybodaeth

Drwy ddanfon ymateb i'r GID hwn mae Tendrwyr yn cadarnhau bod yr holl wybodaeth sydd wedi ei gynnwys (gan gynnwys y geirda) yn wir, cyflawn a chywir ac yn parhau felly drwy gydol y cytundeb.

3.5 Geirda

Gofynnir i Dendrwyr ddarparu llythyrau geirda (dim mwy nag un ochr A4) gan 3 cleient y mae'r Tendrwr wedi darparu gwasanaethau tebyg iddynt. Os oes gan S4C unrhyw gonsyrn ynglŷn ag unrhyw eirda, gall S4C gysylltu a'r canolwr yn uniongyrchol.

Rhan 4 Amlinelliad y Broses Dendro a Cheisiadau am Wybodaeth Bellach

4.1 Amlinelliad y Broses Dendro

Ar 29 Medi 2011 cyhoeddwyd hysbysiad cytundeb yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Yn ogystal rhoddwyd hysbysiad ar wefan Buy4Wales (cyfeirnod 27442) ac ar wefan tendrau S4C o dan yr teitl "**Gwahoddiad i dendro ar gyfer gwasanaethau Rhwydwaith Darparu Cynnwys ("RDC") a/neu gwasanaethau gweinydd/amgodio aml-ddyfais, aml-blatform"** yn gwahodd ymgeiswyr i gymryd rhan yn y broses dendro hon.

Bydd gweddill y broses dendro yma yn cynnwys y camau canlynol:

Cam 1	Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am esboniad	12.00 y.p. 26 Hydref 2011
Cam 2	Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion tendro	16.00 9 Tachwedd 2011
Cam 3	Hysbysiad ynghylch canlyniadau'r gwaith gwerthuso	1 Rhagfyr 2011*
Cam 4	Llofnodi cytundeb	12 Rhagfyr 2011*

Noder y gellid newid y dyddiadau sydd wedi eu marcio â *.

4.2 Cyflwyno Ymatebion Tendro

Gofynnir i Dendrwyr gyflwyno ymateb tendro yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â gofynion y GID hwn, ar ffurf electronig, erbyn y dyddiad cau ar gyfer cael ymatebion tendro a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

Dylid nodi "**Gwahoddiad i dendro ar gyfer gwasanaethau Rhwydwaith Darparu Cynnwys ("RDC") a/neu gwasanaethau gweinydd/amgodio aml-ddyfais, aml-blatform"** yn eglur ar ymatebion tendro a'u hanfon mewn neges e-bost at:

cdntender@s4c.co.uk.

Dylid anfon unrhyw ddeunydd ar ffurf copi caled mewn amlen blaen (heb unrhyw logos cwmni neu wybodaeth ar yr amlen sy'n datgelu enw'r sawl sy'n ei hanfon). Dylid nodi "CYFRINACHOL - "**Gwahoddiad i dendro ar gyfer gwasanaethau Rhwydwaith Darparu Cynnwys ("RDC") a/neu gwasanaethau gweinydd/amgodio aml-ddyfais, aml-blatform"** at sylw **Kate Harris,** S4C, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU ar yr amlen, ac fe ddylai gyrraedd cyn y dyddiad cau.

NI FYDD UNRHYW YMATEBION TENDRO A FYDD YN CAEL EU CYFLWYNO AR ÔL Y DYDDIAD CAU AR GYFER CAEL YMATEBION TENDRO A NODIR YN RHAN 4.1 UCHOD, NEU Y DERBYNNIR GAN S4C I UNRHYW GYFEIRIAD AC EITHRIO'R CYFEIRIAD A NODIR UCHOD, YN CAEL EU HYSTYRIED A CAIFF UNRHYW YMATEBION TENDRO O'R FATH EU HEPGOR O'R BROSES DENDRO HON.

Ni fydd S4C yn gyfrifol am unrhyw ddiffygion yn y system ddosbarthu neu am unrhyw ymatebion tendro a fydd yn mynd ar goll, a fydd yn cael eu hoedi neu a fydd yn ddiffygiol. Mae Tendrwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu hymatebion tendro (ac unrhyw atodiadau) yn cael eu paratoi mewn da bryd (gan ystyried y posibilrwydd y bydd staff yn absennol neu y gallai methiannau technegol godi) a'u bod yn cael eu cyflwyno cyn y dyddiad cau ar gyfer cael ymatebion tendro, a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

Sylwer mai 20Mb yw'r uchafswm o ran maint negeseuon e-bost y gall S4C eu derbyn ac mai'r ffurfiau a ganiateir ar gyfer ffeiliau yw Word, Excel, PDF a Jpeg. Mae'r ffurfiau hyn yn dderbyniol fel Ffeiliau *Zip*. Dylai Tendrwyr fod yn ymwybodol y gallai eu ISP (Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd) eu hunain bennu cyfyngiadau is o ran maint negeseuon e-bost ac felly, fe'u cynghorir i holi eu ISP neu eu hadran TG eu hunain ynghylch unrhyw gyfyngiadau ar faint negeseuon ymhell cyn y dyddiad anfon a'r dyddiad cau.

Ni fernir bod prawf o anfon deunydd yn cyfateb â phrawf bod deunydd wedi cyrraedd, a chynghorir Tendrwyr i geisio cydnabyddiaeth ar ffurf neges e-bost ar wahân bod y deunydd wedi cyrraedd.

4.3 Ystyried Ymatebion Tendro

Bydd S4C yn ystyried yr holl ymatebion tendro y derbynnir gan S4C sydd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y GID hwn yn unol â'r weithdrefn a'r meini prawf a nodir yn Rhan 5 isod. Bydd dyfarnu cytundeb yn cael ei seilio ar asesiad S4C o'r ymateb tendro sy'n cynnig y fantais economaidd fwyaf, yn unol â'r meini

prawf a nodir yn Rhan 5 isod. Hysbysir pob Tendrwr a gyflwynodd ymateb i'r GID o ganlyniad gwaith gwerthuso S4C mewn neges e-bost. Gweler Rhan 5.4 ymhellach isod.

4.4 Esbonio Ymatebion Tendro

Efallai y bydd S4C yn gofyn i Dendrwyr ddarparu gwybodaeth bellach a/neu esboniad ynghylch unrhyw faterion yn eu hymatebion tendro.

4.5 Ceisiadau am Wybodaeth Bellach

Rhaid gwneud pob math o gyswllt mewn perthynas â'r broses dendro hon, gan gynnwys unrhyw geisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad wrth gwblhau ymatebion tendro, ar ffurf neges e-bost i S4C, a'u hanfon at

cdnquestions@s4c.co.uk.

Ni ddylai Tendrwyr drafod neu ofyn am wybodaeth ynghylch y broses dendro hon mewn unrhyw ffordd gan unrhyw swyddog, cyflogai, asiant neu gynghorwr arall S4C.

Anogir Tendrwyr i nodi unrhyw arweiniad a/neu wybodaeth bellach y mae'n bosib y bydd ei hangen arnynt mewn cysylltiad â'r broses dendro hon, cyn gynted ag y bo modd. Y dyddiad cau er mwyn cyflwyno ceisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad yw **12.00 y.p. 26 Hydref 2011.** Ni ystyrir unrhyw geisiadau a fydd yn cael eu gwneud ar ôl y dyddiad cau hwn. Bydd S4C yn ceisio delio â'r holl geisiadau a wneir cyn y dyddiad cau hwn mewn ffordd brydlon.

Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, sylwer y bydd yr holl geisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad ynghylch y broses dendro hon, ynghyd ag ymatebion S4C i geisiadau o'r fath, yn cael eu datgelu i'r holl Dendrwyr. Bydd datgeliadau o'r fath yn cael eu gwneud ar wefan S4C.

Os bydd Tendrwyr o'r farn bod unrhyw gais am wybodaeth bellach a/neu arweiniad y byddant yn ei wneud yn sensitif ar lefel fasnachol, rhaid iddynt nodi "sensitif yn fasnachol" yn eglur ar y cais, a nodi'r rhesymau pam eu bod o'r farn ei bod yn sensitif ar lefel fasnachol. Sylwer, fodd bynnag, y bydd S4C yn penderfynu, yn unol â'i disgresiwn llwyr, a yw'n ystyried bod unrhyw gais o'r fath yn sensitif ar lefel fasnachol. Os bydd S4C yn penderfynu bod cais yn sensitif ar lefel fasnachol, ni fydd S4C yn datgelu'r cais na'i hymateb i gais o'r fath, i Dendrwyr eraill. Os bydd S4C yn penderfynu nad yw cais yn sensitif ar lefel fasnachol, bydd yn hysbysu'r Tendrwr o hyn. Os bydd y Tendrwr yn cytuno nad yw'r cais yn sensitif ar lefel fasnachol, bydd S4C yn ymateb i'r cais a bydd ganddi'r hawl i ddatgelu'r cais, a'i hymateb iddo, i'r holl Dendrwyr. Os na fydd y Tendrwr yn cytuno nad yw'r cais yn sensitif ar lefel fasnachol neu os na fydd yn hysbysu S4C a yw'n cytuno cyn pen un diwrnod gwaith, ystyrir bod y cais yn cael ei dynnu yn ôl ac ni fydd S4C yn ymateb iddo. Ni fydd unrhyw beth yn y paragraff hwn yn cael ei ddehongli fel rhywbeth sy'n cyfyngu ar allu S4C i ddatgelu unrhyw wybodaeth i unrhyw unigolyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn cydymffurfio â'i hymrwymiadau rhyddid gwybodaeth, fel yr amlinellir yn Rhan 6.6 isod.

Bernir bod unrhyw geisiadau ac unrhyw ymatebion iddynt a ddatgelir i'r holl Dendrwyr, yn rhan o'r GID hwn.

Rhan 5 –Meini Prawf Gwerthuso a Gwobrwyo'r Cytundeb

5.1 Profi Cydymffurfiaeth

Cyn cychwyn ar y broses ffurfiol o werthuso'r ymatebion tendro, bydd S4C yn archwilio'r ymatebion tendro er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y GID yn llawn. Gellid gwrthod ymatebion tendro nad ydynt yn cydymffurfio. Bydd S4C yn gwerthuso ymatebion tendro sy'n cydymffurfio yn llawn, yn unol â'r darpariaethau a nodir yn y rhan hwn sef Rhan 5.

5.2 Gwerthuso

Dyfarnir y cytundeb ar sail y tendr sy'n cynnig y fantais economaidd fwyaf. Er mwyn asesu pa dendr sydd yn cynnig y fantais economaidd fwyaf, bydd panel o gynrychiolwyr S4C yn gwerthuso ac yn sgorio'r ymatebion i'r GID yma, yn unol â'r meini prawf a'r pwysoliadau canlynol:

	Meini Prawf Gwerthuso	Sgôr Uchaf
(a)	Anghenion Sylfaenol a nodir yn 2.9a	35%
(b)	Anghenion Dymunol Iawn a nodir yn 2.9a	30%
(c)	Anghenion Dymunol a nodir yn 2.9a	10%
(d)	Pris y Cytundeb	25%

Yn Atodiad 2, cynhwysir y matrics sydd yn nodi sut y bydd y wybodaeth sy'n ofynnol yn Rhan 3.1 uchod yn cael ei gwerthuso yn unol â'r meini prawf hyn.

5.3 Anghymhwyso Ymatebion Tendro/Tendrwyr

Mae S4C yn cadw'r hawl i anghymhwyso ymateb tendro a/neu Dendrwr o'r broses dendro hon ar unrhyw adeg os:

(a) na fydd ymateb tendro yn cydymffurfio ag unrhyw rai o ofynion y GID hwn;

(b) bydd unrhyw wybodaeth a ddarparir i S4C gan y Tendrwr perthnasol (neu, yn achos consortiwm, unrhyw un o'i aelodau), yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd, neu os na fydd yn gywir mwyach;

(c) bydd y Tendrwr wedi cynllwynio gydag unrhyw unigolyn (heb gynnwys, pan fo'r Tendrwr yn gonsortiwm, cynllwynio rhwng aelodau'r consortiwm mewn cysylltiad ag ymateb tendro y consortiwm) mewn perthynas neu mewn cysylltiad gyda'i ymateb tendro neu ymateb tendro unrhyw Dendrwr arall.

Ni fydd y cam o anghymhwyso unrhyw ymateb tendro neu Dendrwr yn amharu ar unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill S4C.

5.4 Dyfarnu Cytundeb

Yn unol â darpariaethau Rhan 6.1 isod ac ar ôl cwblhau'r gwaith o werthuso ymatebion tendro, bydd S4C yn hysbysu Tendrwr o ganlyniadau'r gwaith gwerthuso. Bydd gofyn i'r Tendrwr y bu eu hymateb tendro yn llwyddiannus, i ymrwymo i gytundeb gydag S4C ar ffurf y cytundeb drafft. Ni fydd unrhyw gytundeb yn cael ei ffurfio oni bai a nes bod S4C yn arwyddo'r cytundeb. Ni fydd unrhyw dderbyniad llafar neu ysgrifenedig o unrhyw dendr, neu hysbysiad bod Tendrwr wedi bod yn llwyddiannus, yn gyfystyr â rhwymyn cytundeb.

Rhan 6 Nodiadau Cyfreithiol

6.1 Dim ymrwymiad i gynnig y cytundeb

Ni fydd unrhyw beth yn y GID hwn neu unrhyw gyfathrebu rhwng S4C a'r Tendrwr ynghylch y broses dendro neu'r ymateb tendro yn gyfystyr â chontract i ddarparu unrhyw wasanaeth y rhoddir sylw iddo yn y broses dendro hon, neu warant neu gyflwyniad y bydd unrhyw gontract yn cael ei ddyfarnu neu y gallai unrhyw gontract gael ei ddyfarnu.

Mae S4C yn cadw'r hawl i dynnu yn ôl o a/neu adael a/neu ohirio'r broses dendro hon ar unrhyw adeg, i beidio dyfarnu unrhyw gontract o ganlyniad i'r broses dendro hon, i ychwanegu at, diwygio a/neu egluro amodau a thelerau'r GID hwn a/neu i fynnu bod Tendrwyr yn esbonio eu hymatebion tendro a/neu yn darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag ef.

6.2 Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Rhaid i bob Tendrwr ddarparu manylion os rhagwelir y gallai fod gwrthdaro rhwng buddiannau unigolion sy'n ymwneud â'r cais a staff S4C, mae hyn er mwyn galluogi S4C i sicrhau ei fod yn neilltuo staff i'r broses dendro nad oes ganddynt unrhyw berthynas bersonol gydag unrhyw gais.

6.3 Cytundeb Drafft

Nodir y cytundeb drafft ar gyfer darparu'r gwasanaethau yn Atodiad 1.

Trwy gyflwyno ymateb i'r CID hwn, mae Tendrwyr yn cyfleu eu bod yn derbyn amodau'r cytundeb drafft sydd ynghlwm. Mae S4C yn cadw'r hawl i ddiwygio'r cytundeb drafft ar ôl ei gyhoeddi, unwaith y bydd manylion y cais buddugol yn hysbys, er mwyn cydymffurfio ag amodau penodol y trefniant y cytunwyd arnynt gyda'r Tendrwr llwyddiannus.

6.4 Codau Ymarfer a Chanllawiau

Bydd yn rhaid i'r Tendrwr llwyddiannus gydymffurfio â'r codau ymarfer, y ddeddfwriaeth a'r canllawiau canlynol **ble'n berthnasol** (ymhlith eraill):

- Cod Darlledu Ofcom
- Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch
- Cynllun Iaith S4C
- Gofynion Technegol S4C
- Deddfwriaeth gamblo sy'n berthnasol i gystadlaethau a gynhelir
- Polisi Gwarchod Plant S4C
- Canllawiau Brand S4C
- Ymrwymiad Amrywiaeth S4C

Mae nifer o'r canllawiau hyn ar gael ar Wefan Cynhyrchu S4C sef www.s4c.co.uk/production.

6.5 Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ("RhG") 2000 yn weithredol i S4C. Os bydd unrhyw Dendrwr o'r farn bod unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddo i S4C yn sgil y gwahoddiad hwn, o natur gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol, dylai'r Tendrwr nodi hynny yn benodol gan nodi'r rhesymau dros ystyried y fath wybodaeth yn wybodaeth sensitif. Bydd S4C yn ystyried hyn wrth benderfynu a fydd yn rhyddhau'r wybodaeth wrth ymateb i geisiadau RhG. Fodd bynnag, rhaid i ymgeiswyr dderbyn y bydd S4C yn rhyddhau gwybodaeth o'r fath os bydd yn cael cyngor cyfreithiol bod yn rhaid iddo wneud hynny er mwyn cydymffurfio gyda Deddf RhG. Mae S4C yn cadw'r hawl i benderfynu yn ei ddisgresiwn llwyr os yw unrhyw wybodaeth arbennig wedi ei eithrio rhag ei ddadlenni.

6.6 Diogelu Data

Trwy gyflwyno tendr, mae Tendrwyr yn awdurdodi S4C i brosesu'r holl wybodaeth bersonol a ddarparwyd fel rhan o'u cais yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac maent yn cadarnhau eu bod wedi sicrhau'r holl ganiatâd trydydd parti angenrheidiol er mwyn galluogi S4C i wneud hynny.

6.7 Cyfrinachedd

Trwy gyflwyno ymateb tendro, mae'r Tendrwyr yn cytuno cadw yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth a ddatgelir neu a fydd ar gael i'r Tendrwyr gan S4C mewn unrhyw gyfrwng yn ystod neu mewn cysylltiad â'r

broses dendro hon. Cytuna Tendrwyr i beidio defnyddio gwybodaeth o'r fath at unrhyw ddiben ac eithrio'r diben o baratoi'r ymateb tendro, ac i beidio datgelu gwybodaeth o'r fath i unrhyw unigolyn arall ac eithrio mewn ffordd gyfrinachol ac ar sail yr angen i'w gwybod, i'r unigolion hynny sy'n ymwneud â'r gwaith o baratoi'r ymateb tendro yn uniongyrchol. Ni fydd yr oblygiadau cyfrinachedd yn berthnasol i wybodaeth sydd eisoes yn gyhoeddus ar yr adeg y caiff ei datgelu.

6.8 Ymwadiad

Nid yw S4C yn cynnig unrhyw warant neu gyflwyniad ynghylch cyflawnder neu gywirdeb unrhyw wybodaeth yn y GID hwn ac mae unrhyw ddibyniaeth ar wybodaeth o'r fath ar eich risg eich hunain.

6.9 Costau'r Tendr

Mae pob Tendrwr yn gyfrifol am y costau a'r treuliau sydd yn daladwy mewn cysylltiad â'r broses tendro yma. Ni fydd S4C o dan unrhyw amod yn cyfrannu tuag at y fath gostau a threuliau.

6.10 Diwygiadau i Ddogfennau Tendr

Mae S4C yn cadw'r hawl i wneud newidiadau i'r dogfennau tendro cyn y dyddiad cau a nodir yng Ngham 1 4.1 uchod. Er mwyn galluogi ystyriaeth ar gyfer diwygiad o'r fath, gall S4C, yn unol â'i disgresiwn, ymestyn y dyddiadau a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

6.11 Hawlfraint

Mae S4C yn berchen ar yr hawlfraint yn y GID ac unrhyw ddeunyddiau eraill a gyhoeddir neu a ddarparir gan S4C. Ni chaniateir i Dendrwyr gopïo, atgynhyrchu, defnyddio neu gyhoeddi copïau o'r GID neu ddeunyddiau o'r fath (neu unrhyw ran ohonynt) ac eithrio yn unol â'r graddau sy'n ofynnol er mwyn paratoi a chyflwyno'u hymatebion tendro.

6.12 Dim cyd-gynllunio

Drwy gynnig ymateb i'r GID hwn, mae pob Tendrwr yn cadarnhau:

1. bod yr ymateb i dendr yn "bona fide" ac yn gystadleuol;

2. nad yw'r Tendrwr wedi gosod neu newid yr ymateb yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant gydag unrhyw berson arall (heblaw yng nghyswllt consortiwm, gydag aelodau eraill y consortiwm) nac wedi gofyn i unrhyw Dendrwr arall i wneud yr un peth; ac

3. nad yw'r Tendrwr wedi trafod neu ymgynghori ag unrhyw berson arall heblaw am S4C ynglyn â swm neu fras gyllideb neu bris ei ymateb i'r tendr, heblaw lle roedd y fath drafod neu ymgynghori yn gyfrinachol ac yn angenrheidiol er mwyn gwneud ymholiadau ynghylch premiwm yswiriant neu ddyfynbris ar gyfer paratoi'r ymateb i'r GID.

6.13 Cyfraith Lywodraethol

Llywodraethir yr GID hwn gan gyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae pob Tendrwr yn cytuno, trwy ddychwelyd ymateb tendro, ymrwymo i awdurdodaeth llwyr-gyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr.

ATODIAD 1

CYTUNDEB

YN DDAROSTYNGEDIG I GYTUNDEB

ATODIAD 2 - MATRICS GWERTHUSO

ADRAN 1 – Anghenion Sylfaenol (35%)	**Marc**
Gallu i ddarparu 15 T/Byte y mis	**/10**
Gallu i ddelio â galw brig o 2000+ o gysylltiadau ar unwaith ar 1 Mbs a chopâu o dro i dro o 10,000+	**/10**
Gallu "geoblocking" hyblyg ar gyfer cynnwys byw ac ar alw	**/10**
Cefnogaeth i H264 a FLV	**/10**
Cefnogaeth ar gyfer mynediad FTP gyda nifer o gyfrifon	**/10**
Mynediad i logs gweinyddion fideo crai – sy'n cynnwys gwybodaeth dechrau a stopio'r sesiwn ee logs FMS a Wowza ayyb	**/10**
Y gallu i greu (o un prif ffeil) y nifer o fersiynau angenrheidiol ar gyfer ffrydio byw ac ar alw i gyfrifiaduron, Android, iOS, Symbian OS, teledu cysylltiol, consolau ee ps3, Xbox, Nintendo Wii ayyb	**/10**
Y gallu/cynhwysedd i gadw i fyny gyda twf cynnwys yn y dyfodol ac amryw o ddyfeisiau newydd pan y maent yn cyrraedd rhan sylweddol o'r farchnad	**/10**
Cyfanswm allan o 80	
Cyfanswm pwysol Adran 1 ([ ]/80 x 35)	**/35**
ADRAN 2 – Anghenion dymunol iawn (30%)	
Gallu i gefnogi nifer o ddyfeisiau heb angen amgodio penodol ee cyfleu ffrwd byw awtomatig HTTP ar gyfer dyfeisiau iOS	**/10**
Rhestr o gleientiaid yn dangos darpariaeth o wasanaethau tebyg yn ogystal a geirda boddhaol gan dri o'r cleientiaid	**/10**
Gallu i sicrhau argaeledd gwasanaeth uchel – 24awr x 365 dydd	**/10**
Staff gyda'r lefel angenrheidiol o brofiad a chymhwyster i fedru bodloni gofynion y cytundeb	**/10**
Cyfanswm allan o 40	
Cyfanswm pwysol Adran 2 ([ ]/40 x 30)	**/30**
ADRAN 3 – Anghenion dymunol (10%)	
Gallu i greu cyfrifon FTP fel bo'r angen	**/10**
Gallu i greu pwyntiau cyhoeddi byw fel bo'r angen	**/10**
Cyfanswm allan o 20	
Cyfanswm pwysol Adran 3 ([ ]/20 x 10)	**/10**
ADRAN 4 – Pris y Cytundeb (25%)	
Cyfanswm allan o 10	**/10**
Cyfanswm pwysol Adran 4 ([ ]/10 x 25)	**/25**
CYFANSWM TERFYNOL	**/100**

ATODIAD 3
FFURFLEN WYBODAETH SYLFAENOL

ADRAN 1

Gwybodaeth Sylfaenol am yr Ymgeisydd

Enw llawn yr Ymgeisydd _____

Rhif cofrestru'r Ymgeisydd
(os yn berthnasol) _____

Cyfeiriad swyddfa gofrestredig yr Ymgeisydd (os yn berthnasol) neu gyfeiriad prif fan masnachu:

_____

Prif rif Ffôn _____

Prif rif Ffacs _____

Manylion am yr unigolyn o fewn yr Ymgeisydd i'r hwn y dylid cyfeirio pob gohebiaeth:

Enw _____

Swydd _____

Cyfeiriad _____

Rhif Ffôn _____

Rhif Ffacs _____

Cyfeiriad e-bost _____

Iaith ar gyfer gohebiaeth y dyfodol (dewiswch un os gwelwch yn dda) Cymraeg □ Saesneg □

A wneir y cais hwn fel rhan o Gonsortiwm? Gwneir □ Na wneir□

Os gwneir, rhowch enw prif aelod y Consortiwm os gwelwch yn dda:

_____

Os mai'r Ymgeisydd yw prif aelod y Consortiwm, gosodwch yma restr o bob aelod o'r Consortiwm a nodwch pa adnoddau y bydd pob aelod o'r Consortiwm yn ei ddarparu er mwyn cwrdd â gofynion y cytundeb os gwelwch yn dda:

_____

_____

ADRAN 2

Statws yr Ymgeisydd

Nodwch isod os yw'r Ymgeisydd yn (ticiwch os gwelwch yn dda):

□ unig fasnachydd □ partneriaeth

□ cwmni cyfyngedig preifat □ cwmni cyfyngedig cyhoeddus

□ arall (nodwch) _____

ADRAN 3

Sefyllfa Bersonol yr Ymgeisydd

(Sylwer: Os yw'r ateb i unrhyw gwestiwn yn Rhan Ch yn do, rhowch fanylion.)

Dywedwch a fu (Do) i'r Ymgeisydd ai peidio (Naddo):

(ticiwch fel mae'n briodol)

		Do	Naddo
i)	neu unrhyw un o'i gyfarwyddwyr neu unrhyw berson arall sydd â hawliau cynrychioli, penderfynu neu reoli drosto ei gael yn euog o gamymddwyn difrifol wrth gynnal ei fusnes neu broffesiwn neu unrhyw weithred o gynllwynio, llygru, llwgrwobrwyo, twyllo, gwyngalchu arian neu unrhyw drosedd arall o fewn ystyr Erthygl 45(1) Cyfarwyddeb Sector Gyhoeddus;	□	□
ii)	ei gael yn fethdalwr neu rywdro gael gorchymyn derbyn neu orchymyn gweinyddu neu orchymyn cyfyngiadau methdaliad yn ei erbyn neu rywdro wedi compowndio neu drefnu gyda neu er budd ei gredydwyr neu'n ymddangos na fedrai dalu neu heb unrhyw ragolygon rhesymol o fedru talu dyled neu roi gweithred ymddiried i'w gredydwyr neu, fel arall, yn ôl pob golwg yn ansolfent neu ei fod yn destun deiseb am atafaeliad o'i ystâd neu ei fod neu rywdro wedi bod yn destun unrhyw weithdrefn gyffelyb dan gyfraith unrhyw wladwriaeth;	□	□
iii)	basio penderfyniad neu fod yn destun gorchymyn gan y llys i'w ddirwyn i ben neu iddo gael derbynnydd, rheolwr neu weinyddydd ar ran credydwr wedi ei benodi ynglŷn â'i fusnes neu unrhyw ran ohono neu sy'n destun unrhyw weithdrefnau cyffelyb dan gyfraith unrhyw wladwriaeth;	□	□
iv)	neu unrhyw un o'i gyfarwyddwyr neu unrhyw berson arall sydd â hawliau cynrychioli, penderfynu neu reoli drosto ei gael yn euog o drosedd mewn perthynas â chynnal ei fusnes neu broffesiwn;	□	□
v)	neu unrhyw un o'i gyfarwyddwyr neu unrhyw berson arall sydd â hawliau cynrychioli, penderfynu neu reoli drosto ei gael yn euog o unrhyw gamliwio difrifol wrth roi gwybodaeth angenrheidiol amdano mewn perthynas â chaffaeliad;	□	□
vi)	fethu rywdro â chyflawni unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ynglŷn â thalu cyfraniadau nawdd cymdeithasol neu drethi dan gyfraith neu ran o gyfraith y Deyrnas Unedig neu'r wladwriaeth lle y'i sefydlwyd	□	□

ADRAN 4

Gallu Technegol

Rhowch fanylion y prif wasanaethau a ddarperir gan yr Ymgeisydd sydd yn berthnasol i'r broses dendro yma ac a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Dylid cynnwys y manylion am dderbynwyr y gwasanaethau, y dyddiadau pryd y darparwyd y gwasanaethau a'r ymateb a gafwyd i ddarpariaeth y gwasanaethau hynny.

Cleient	Dyddiad Cytundeb	Gwerth Cytundeb	Disgrifiad o'r Gwasanaethau

Yn ystod y tair blynedd diwethaf a derfynwyd unrhyw gytundeb ar gyfer darparu gwasanaethau sydd yn debyg i'r gwasanaethau sydd yn cael eu tendro fel rhan o'r broses dendro hon o ganlyniad i berfformiad gwael neu a hawliwyd iawndal yn erbyn yr Ymgeisydd dan gytundeb o'r fath yn ystod y tair blynedd diwethaf? Os do, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

_____

_____

_____

ADRAN 5

Staff ac Argaeledd Adnoddau

a) Rhowch fanylion am y nifer cyflawn o staff a gyflogir gan yr Ymgeisydd a'r math o waith y cyflogir hwynt i'w gyflawni.

_____

_____

_____

_____

b) Rhowch fanylion am y nifer o staff â phrofiad a chymwysterau perthnasol a fydd yn ymglymedig â darparu'r gwasanaethau. Dylid nodi na ddylid cynnwys yma enwau aelodau arbennig o staff na'r personél allweddol, dim ond gwybodaeth generic y dylid ei gynnwys.

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

ADRAN 6

Is-gontractwyr

Rhowch syniad o natur y gwaith y bwriadir ei is-gontractio a'r gyfran o'r cytundeb (wedi ei nodi fel canran o'r gwerth cyflawn) a allai gael ei is-gontractio a gwybodaeth am brofiad yr Ymgeisydd wrth reoli is-gontractwyr.

_____

_____

_____

_____

_____

_____

ADRAN 7

Yswiriant Indemnio

Cadarnhewch pa bolisiau yswiriant sydd gan yr Ymgeisydd (neu y bydd gan yr Ymgeisydd) sy'n berthnasol ar gyfer y Tendr. Fel lleiafswm, disgwylir yswiriant atebolrwydd proffesiynol gyda gwerth indemnio o £1m.

ADRAN 8

Geirda

Cwblhewch y tabl isod a darparwch lythyrau geirda (dim mwy nag un ochr A4) wedi eu harwyddo gan dri cleient i'r Ymgeisydd am waith a wnaethpwyd yn ddiweddar ac sy'n waith tebyg i'r hyn y mae'r broses dendro hon yn ymwneud ag ef.

	Geirda 1	**Geirda 2**	**[Geirda 3]**
Enw Cyswllt			
Enw'r Cwmni			
Cyfeiriad Post Llawn			
Rhif Ffôn			
Rhif Ffacs			
Cyfeiriad E-bost			
Cyfeirnod Cytundeb a Disgrifiad			